**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

24 Hydref 2024

Annwyl Lywydd,

Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref 2024.

Mae'r Bil yn cynnwys 119 o gymalau, chwe rhan a saith atodlen. Mae ehangder y Bil yn sylweddol ac mae hynny yn cael ei adlewyrchu gan yr enw hir:

*"make provision to amend the law relating to employment rights; to make provision about procedure for handling redundancies; to make provision about the treatment of workers involved in the supply of services under certain public contracts; to provide for duties to be imposed on employers in relation to equality; to provide for the establishment of the School Support Staff Negotiating Body and the Adult Social Care Negotiating Body; to make provision about trade unions, industrial action, employers' associations and the functions of the Certification Officer; to make provision about the enforcement of legislation relating to the labour market; and for connected purposes."*

Ein dadansoddiad cychwynnol yw bod y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 ac felly bydd yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Rydym yn gweithio drwy'r manylion sydd eu hangen. Er ein bod wedi cael trafodaethau cynhyrchiol gyda Llywodraeth y DU cyn cyhoeddi'r Bil, mae cwmpas y Bil wedi peri her wrth gwblhau ein dadansoddiad.

Er y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod cyn gynted â phosibl, oherwydd maint a chymhlethdod y Bil bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos yn Rheol Sefydlog 29. Cynhelir ail ddarlleniad Tŷ'r Cyffredin o'r Bil ar 21 Hydref gyda chyfnod y pwyllgor yn dechrau ym mis Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, Julie James AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Mike Hedges AS.

Yn gywir,

**Jack Sargeant AS/MS**
Minister for Culture, Skills and Social Partnership
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol